**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-MD-1844-17

John Griffiths AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Mai 2017

Annwyl John

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr 26 Cymru yn gofyn pa sylwadau y byddwn yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau bod amddiffyn hawliau dynol yn ganolog i negodiadau Brexit.

Fel Llywodraeth rydym wedi bod yn ddiamwys yn ein hymrwymiad i gadw'r amddiffyniadau cymdeithasol sy'n ymwneud â hawliau dynol ac yn ehangach sy'n deillio o'n haelodaeth â'r UE. Rydym yn rhannu pryder y Pwyllgor bod perygl y bydd y broses o dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y bwriad gan Lywodraeth bresennol y DU i beidio â throsi'r Siarter Hawliau Sylfaenol yn gyfraith y DU, yn gwanhau'r fframwaith cyfreithiol hawliau dynol yn y DU.

Roedd gwarchod amddiffyniadau cymdeithasol yn un o'r chwe blaenoriaeth yn ein Papur Gwyn *Sicrhau Dyfodol Cymru,* ac rwyf wedi pwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch y rhain yng nghyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (negodiadau'r UE) ac mewn trafodaethau dwyochrog â Llywodraeth y DU. Yn enwedig, rydym wedi'i gwneud yn glir y byddai Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ymdrechion i dynnu yn ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dangosodd Llywodraeth bresennol y DU rai arwyddion ei bod yn cydnabod y flaenoriaeth yr ydym yn ei rhoi ar hyn gyda'i Phapur Gwyn "Legislating for the United Kingdom's Withdrawal from the European Union' sy'n datgan: "The UK's withdrawal from the EU will not change the UK's participation in the ECHR and there ren o plans to withdraw from the ECHR." Er hynny, fel yr amlinellir uchod, mae gennym bryderon dwys iawn am fwriadau Llywodraeth bresennol y DU mewn perthynas â'r Siarter Hawliau Sylfaenol.

Bydd ein hymrwymiad i hawliau dynol ac amddiffyniadau cymdeithasol eraill yn rhan hollbwysig o'r trafodaethau a gawn gyda darpar Lywodraeth y DU ar ôl yr Etholiad Cyffredinol. Ar hyn o bryd, cyn yr etholiad, nid oes modd pennu union natur neu ffurf y trafodaethau hyn ond byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i sicrhau nad yw'r hawliau sydd gan bobl Cymru ar hyn o bryd yn cael eu gwanhau oherwydd ymadawiad y DU â'r UE.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government